

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

Adroddiad Ymgynghori

Creigiau gyfan / Sain Ffagan a Radur / Pentre-poeth: Rheoliadau Twmpathau Ffordd Heol Llantrisant (Goitre Fach)

Rhif y Project: CO16090

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 7 Ionawr 2019 a 18 Ionawr 2019. Derbyniwyd 1 ymateb unigol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad hwn. Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi'u crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

Yn sgil yr isod, cynigir bwrw ymlaen â gweithredu'r cynllun fel yr amlinellir yn y cynllun ymgynghori.

Mater 1 – Pryderon Bwrdd Arafu

Pan fo byrddau arafu lled llawn yn cael eu cyflwyno rydym wastad yn mynegi pryder ynghylch eu proffil a'r gwaith cynnal a chadw parhaus. Mae nifer o enghreifftiau ledled y ddinas lle mae'r proffiliau'n amrywio i'r fath raddau fel eu bod nhw'n cyfaddawdu ein cerbydau ac ansawdd y profiad yn y car.

Mae'r teithio parhaus dros y cyfyngiadau hyn yn cyflymu dirywiad cydrannau'r bws ac felly'n achosi cyfradd adnewyddu uwch a chostau busnes uwch. Mae ganddynt effaith andwyol hefyd ar ansawdd y profiad yn y cerbyd, a gall hyn gael effaith negyddol ar nifer y siwrneiau y mae pobl yn eu cymryd.



Ymateb

Cydnabyddir bod twmpathau ffordd â graddiant gwahanol iddynt ledled y Ddinas a byddwn yn ceisio cynnig ramp â goleddf gyson ar bob ramp newydd. Er mwyn cynnig taith gyfforddus i deithwyr bws, bydd y rampiau hyn yn cael eu dylunio gyda graddiant o 1 i 16, gyda lleiafswm pellter o chwe metr rhwng y rampiau, na ddylai achosi niwed i gerbydau os byddwch yn gyrru drostynt ar gyflymder addas. Rydym hefyd yn defnyddio deunydd wyneb ffordd gwell ar y bwrdd yn ogystal ac wrth ddynesu ato a'i adael er mwyn lleihau unrhyw newid o ran proffil.

Yn anffodus, un o'r unig ddulliau sydd gennym i arafu traffig yw trwy ddefnyddio byrddau arafu. Mae bwrdd arafu'n addas ar gyfer y lleoliad hwn er mwyn creu amgylchedd priffordd mwy diogel yma ar y croesfan heb reolaeth i gerddwyr, a allai gael ei newid yn groesfan sebra yn y dyfodol, ac wrth fynd tua'r dwyrain tuag at y gyffordd signalau newydd.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 20788 522 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 20788 522 to request a paper copy of the post-consultation report.